Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad newyddion

21 Mai 2008

Prosiect peilot Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4 yn llwyddiannus yn y rhan fwyaf o ysgolion

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn rheoli'r broses o gyflwyno Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4 yn dda meddai Estyn, mewn adroddiad a gyhoeddwyd heddiw. Mae dau ddeg un o ysgolion yn addysgu Bagloriaeth Cymru ar lefelau Sylfaen a Chanolraddol yng nghyfnod allweddol 4 fel rhan o brosiect peilot a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Dywed Estyn fod angen uwch reolwyr ar ysgolion i ymgymryd â rôl allweddol mewn arwain a chydlynu'r rhaglen, ac y dylai rheolwyr sefydlu systemau cynhwysfawr ac ymarferol i gyflwyno medrau allweddol.

"Mae'r broses o gydlynu a threfnu'r gydran medrau allweddol yn hanfodol i gyflwyno Bagloriaeth Cymru yn llwyddiannus. Mae cyflwyno yn llwyddiannus yn dibynnu ar fapio a monitro gofalus i sicrhau ymdriniaeth lawn â medrau allweddol, " meddai Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru wedi datblygu ochr yn ochr â pholisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Lwybrau Dysgu 14-19. Mae'r polisi yn cynnig dull mwy hyblyg a chytbwys ar gyfer addysg pobl ifanc 14-19 oed.

Canfu arolygwyr Estyn fod ysgolion sy'n addysgu Bagloriaeth Cymru i bob dysgwr yng nghyfnod allweddol 4 yn ei gweld yn fwy syml na'r ysgolion hynny sy'n ei haddysgu i grwpiau dethol yn unig. Mae'r cynllunio yn fwy llwyddiannus pan gaiff ei wneud ar draws y garfan gyfan.

Mae ysgolion sy'n cynllunio'n effeithiol ar gyfer Bagloriaeth Cymru yn defnyddio'r rhaglen i fodloni gofynion eraill y cwricwlwm. Maent yn dadansoddi'r hyn y maent eisoes yn ei wneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud yn ofalus i fodloni gofynion y rhaglen. Yn yr ysgolion hyn, mae dysgwyr yn ystyried y rhaglen yn rhan arferol o'u cwricwlwm.

Mae Estyn yn argymell y dylai CBAC, sef y corff arholi ar gyfer cymhwyster Bagloriaeth Cymru, roi mwy o arweiniad a hyfforddiant i athrawon ar safonau'r gwaith a ddisgwylir ar lefelau 1 a 2 y Fagloriaeth, yn ogystal â pharhau i wella ei drefniadau safoni ar gyfer asesiadau.

Er bod y cymhwyster wedi'i gynnwys yn y sgôr pwyntiau ehangach, mae'r ffaith nad yw'n cyfrannu at brif ddangosyddion perfformiad fel pum cymhwyster TGAU neu fwy graddau A* i C, yn rhwystr mawr rhag ei ehangu yng nghyfnod allweddol 4.

Mae'r cyllid a gaiff ysgolion i gyflwyno Bagloriaeth Cymru yn cael ei ddefnyddio'n dda ar y cyfan, ond mae ysgolion yn pryderu ynghylch a fyddant yn gallu cynnal y rhaglen pan ddaw'r grant i ben. Nifer fach o ysgolion sydd wedi arfarnu'r costau eraill sy'n gysylltiedig â chyflwyno Bagloriaeth Cymru mewn unrhyw fanylder.

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion:

- Mae Estyn, swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn darparu gwasanaeth arolygu a chyngor ansawdd uchel.
- Comisiynwyd adroddiad Estyn, 'Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.
- Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar gyflwyno Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefelau Sylfaen a Chanolraddol yng nghyfnod allweddol 4 mewn ysgolion yng Nghymru. Ei nod yw darparu papur sefyllfa sy'n arfarnu prosiect peilot Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno Bagloriaeth Cymru yn y cyfnod allweddol hwn.
- Mae copïau llawn o adroddiadau arolygu ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Lisa Jordaan

Y Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464